

**Rhybudd cywiro ar gyfer adroddiad Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr Rhwydwaith
Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion 2019/20**

Manylion

Adroddwyd ar ganrannau anghywir yn Nhablau 3.1-3.3 ar gyfer y % a oedd yn teimlo'n unig o leiaf peth o'r amser yn ystod gwyliau'r haf diwethaf.

Sylwadau

Yn fersiwn wreiddiol yr adroddiad, roedd y canrannau a adroddwyd yn Nhablau 3.1-3.3 yn adlewyrchu cyfran y bobl ifanc 11-16 oed nad oeddent byth neu'n anaml yn teimlo'n unig yn ystod gwyliau'r haf diwethaf, yn hytrach na'r gyfran a oedd yn teimlo'n unig o leiaf peth o'r amser yn ystod gwyliau'r haf diwethaf (fel yr adroddwyd yn Ffigurau 3.13-3.16). Felly roedd y canrannau a adroddwyd yn Nhablau 3.1-3.3 yn sylweddol uwch na'r rhai a nodwyd yn Ffigurau 3.13-3.16. Mae'r gwall hwn wedi'i newid ers hynny.

Tîm y Rhydwaith